Y Ffigysbren heb ffigys

Rhoi cyfle / Amynedd

O gwmpas y pentref roedd y coed ffigys yn tyfu. Coed oedd y rhain oedd yn tyfu ymhob man. Roedd rhai ohonyn nhw'n tyfu ar ochr y bryn. Roedd eraill yn tyfu ar ochr y graig lle nad oedd ganddyn nhw fawr o bridd. Yn y gwanwyn byddai'r coed yn deilio. Byddai'r bobl wrth eu bodd yn gweld y coed yn deilio. Roedden nhw'n gwybod bryd hynny bod y gwanwyn wrth y drws.

Un diwrnod, penderfynodd gwinllannydd y pentref ei fod am blannu ffigysbren yn ei winllan. "Rydw i am blannu ffigysbren yn y winllan. Fe gawn ni ffigys arni i'w bwyta pan fydd yr hydref yn dod heibio." Bob blwyddyn byddai'r gwinllannydd yn gofalu am y ffigysbren. Byddai'n palu a gwrteithio o'i chwmpas. Pan fyddai pobl ddieithr yn galw heibio byddai'r gwinllannydd yn siŵr o fynd â nhw i'r winllan. "Dowch i weld y ffigysbren. Mae hi'n goeden gwerth i'w gweld."

Roedd y ffigysbren yn dair oed erbyn hyn. Doedd y gwinllannydd ddim yn gallu credu fod tair blynedd wedi mynd heibio ers pan y bu'n ei phlannu. Doedd hi ddim ond fel ddoe. Clywodd, fod y meistr yn ddyn digon caredig ond o bryd i'w gilydd byddai'n gallu bod yn llym.

"Mae'n rhaid i mi ofalu bod y winllan yn edrych yn dda pan ddaw'r Meistr heibio," meddai'r gwinllannydd. "Bydd rhaid i mi chwynnu a chael gwared â phob planhigyn sydd wedi marw rhag ofn i'r Meistr fod yn ddig."

Am wythnos gron gyfan bu'r gwinllannydd yn tacluso'r winllan. Gwnaeth yn siŵr fod pob planhigyn yn edrych ar ei orau. Bore braf iawn oedd y bore pan ddaeth Meistr y winllan heibio. "Tydi hi'n fore ardderchog" meddai'r Meistr wrth y gwinllannydd. "Dowch i ni gymryd ein hamser i fynd am dro o gwmpas y winllan."

Roedd y Meistr wedi'i blesio efo gwaith y gwinllannydd. "Cyn i chi fynd beth am i ni fynd i ben draw'r winllan i weld y

ffigysbren" meddai'r gwinllannydd.
I ffwrdd â nhw. Braidd yn siomedig oedd y Meistr. Gofynnodd i'r gwinllannydd. "Faint ydi oed y goeden erbyn hyn?"
"Tair oed syr!" atebodd y gwinllannydd.
"O! mae hi'n amser i ni ei thynnu o'r gwraidd. Fe ddylai hi fod wedi ffrwytho a rhoi ffigys i ni erbyn hyn" meddai'r Meistr yn ddig braidd.
"Meistr" meddai'r gwinllannydd, "gawn ni roi un cyfle arall iddi. Mi wnâi i fy ngorau. Mi wnâi balu a gwrteithio o'i chwmpas. Rwy'n siŵr y bydd yn dod â ffrwyth y flwyddyn nesaf."
"Ac os na ddaw â ffrwyth y flwyddyn nesaf?" gofynnodd y Meistr.
"Wel, fe gawn ei thorri i lawr bryd hynny. Fe rown un cyfle arall iddi" meddai'r gwinllannydd.

O Dduw, diolch am bobl debyg i'r gwinllanydd sy'n barod bob amser i roi cyfle arall. Amen.

✦ Darllenwch y stori hon yn y Beibl. Mae hi yn Efengyl Luc, pennod 13.
✦ Sut ddyn oedd y Meistr?